Paratoi ar gyfer y gaeaf

Paratoi / Bod yn ddarbodus

Cyn dod i'r ysgol y bore yma rwy'n siŵr eich bod wedi cael brecwast. Byddwch yn cael cinio yn yr ysgol a the a swper ar ôl mynd adref. Beth petai rhywun yn dweud wrthych na fyddwch yn cael bwyd am wythnosau. Beth fuasech yn ei wneud? Rwy'n siŵr y buasech yn mynd i chwilio am ddigon o fwyd a'i gadw rhag ofn i chi lwgu.

Mae yna rai anifeiliaid sy'n casglu bwyd yn yr hydref, a'i storio ar gyfer y gaeaf. Mae wiwerod yn casglu ar gyfer y gaeaf. Does neb yn dweud wrthyn nhw am wneud hyn. Mae'n nhw'n gwybod beth i'w wneud.

Yn ystod y dydd bydd y wiwer goch yn casglu mes oddi ar y coed ac yn eu cuddio yn y ddaear. Bydd y mes ar gael pan na fydd yna fwyd i'w gael. Yn ystod tymor y gaeaf bydd y wiwer goch yn gorffwyso. Fydd hi ddim yn mynd i gysgu dros y gaeaf fel y crwban a'r pathew. Pan fydd hi'n ddiwrnod braf yng nghanol y gaeaf bydd y wiwer goch yn codi a mynd i chwilio am fwyd. Hwn fydd y bwyd fydd hi wedi guddio yn ystod tymor yr hydref. Bydd hi'n gwybod yn iawn ymhle y bydd hi wedi cuddio'i bwyd.

Creaduriaid eraill sy'n paratoi ar gyfer y gaeaf yw'r adar. Mae rhai adar yn byw ar bryfed. Ond yn y gaeaf bydd y pryfed yn marw. Mae hi'n rhy oer iddyn nhw hedfan o gwmpas. Felly, beth mae'r adar sy'n bwyta pryfed yn wneud dros y gaeaf? Bydd llaweroedd ohonyn nhw'n hedfan i wledydd cynnes. Bydd digon o bryfed a'r gael yn y gwledydd rheiny. Ddechrau tymor yr hydref bydd y gwenoliaid, sy'n byw ar bryfed, yn casglu gyda'i gilydd. Yna, un diwrnod byddan nhw'n hedfan gyda'i gilydd ar draws y moroedd i Affrica. Yn y gwanwyn dilynol byddan nhw'n dychwelyd. Erbyn hynny bydd y tywydd wedi cynhesu yn ein gwlad ni a bydd digon o bryfed o gwmpas. Bydd rhai pryfed hefyd yn storio bwyd ar gyfer y gaeaf. Yn ystod tywydd cynnes yr haf bydd y gwenyn yn

casglu neithdar o'r blodau. Bydd y gwenyn eraill yn bwyta'r neithdar ond bydd cyfran ohono yn cael ei storio tan y gaeaf. Pan fydd y tywydd yn oer a gwlyb bydd y gwenyn yn y cwch yn bwyta'r neithdar. Ni fydd angen mynd allan i chwilio am fwyd bryd hynny.
Yn yr hydref mae llawer o greaduriaid yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer tywydd oer y gaeaf.

Helpa fi, O Dduw, i fod yn berson sy'n meddwl ac yn paratoi ar gyfer y dyddiau sydd i ddod. Amen.

✦ Fedrwch chi enwi rhai o'r anifeiliaid sy'n mynd i gysgu dros y gaeaf?
✦ Fedrwch chi enwi rhai o'r adar sy'n mudo i wledydd eraill? Oes yna adar sy'n dod aton ni yn y gaeaf?